Wedi'i llunio ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
2021

RHONDDA CYNON TAF

REDSTART

Tirlithriad Tylorstown - Cam 4

Datganiad Amgylcheddol

Cyfrol 4: Crynodeb Annhechnegol

Rhagfyr 2021

RHONDDA CYNON TAF

Quality Management

Job No	CS100303		
Project	Tylorstown Landslip Phase 4		
Location	Wales		
Title	Volume 4: Non-Technical Summary		
Document Reference	GC3613-RED-0074-XX-RP-L-0022	**Issue / Revision**	P04 / S4
File Reference	P:\Schemes_CGC\GC003613 - RCT Tylorstown Landslide\1 - Documents\EIA\Phase 4\05 Environmental Statement\Volume 4 - NTS		
Date	September 2021		
Prepared by	Bethan Williams Graduate Environmental Consultant	**Signature (for file)**	
Checked by	Nick Holmberg Senior Environmental Consultant	**Signature (for file)**	
Authorised by	Rachel Taylor Associate Director	**Signature (for file)**	

Revision Status / History

Rev	Date		Prepared	Checked	Authorised
P01	20/05/2021	S4 Issued for client review	BW	NH	RT
P02	06/07/2021	S4 Issued for client review	BW	NH	RT
P03	16/08/2021	S4 Issued for client review	BW	NH	RT
P04	13/09/2021	S4 Issued for client review	BW	NH	RT
P05	10/12/2021	S4 Issued for client review	LH	NH	RT

This document (GC3613-RED-0074-XX-RP-L-0022) has been prepared by Capita Property and Infrastructure Limited within the terms of the Contract with the Client to whom this document is addressed. Capita Property and Infrastructure Limited disclaim any responsibility to the Client and others in respect of matters outside the scope of the said contract. No person other than the client and their professional advisors shall rely on it in any respect and no duty of care shall be owed to any such third party by Capita Property and Infrastructure Limited.

This document is of UK origin and is © Capita Property and Infrastructure Limited. The contents of this document shall not in whole or in part be stored in any retrieval system nor be reproduced or transmitted in any form by photocopying or any optical, electronic, mechanical or other means, without the prior written permission of the Managing Director, Capita Property and Infrastructure Limited., 71 Victoria Street, London SW1H 0XA.

Pwrpas y Crynodeb Annhechnegol

Dyma yw'r Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol ar gyfer prosiect Tirlithriad Tylorstown - Cam 4, y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y "Cynllun Arfaethedig".

Pwrpas y ddogfen yw crynhoi prif ganfyddiadau'r broses Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol mewn iaith annhechnegol. Mae'n galluogi unrhyw un sydd â diddordeb yn y Cynllun Arfaethedig, gan gynnwys y cyhoedd, i ddeall sut y gallai'r Cynllun Arfaethedig effeithio arnyn nhw a'r amgylchedd maen nhw'n byw ynddo.

Mae'r Crynodeb Annhechnegol yma'n rhoi trosolwg o'r canfyddiadau sydd wedi'u hadrodd yn y Datganiad Amgylcheddol. Nid yw'n cyfleu'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r Cynllun Arfaethedig a'i effeithiau posibl ar yr amgylchedd, ac nid dyma yw ei fwriad. Am wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag unrhyw ran o'r Crynodeb Annhechnegol yma, cyfeiriwch at y Datganiad Amgylcheddol (Cyfrol 1 o'r Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol).

Mae'r ddogfen yma'n cynnwys:

- disgrifiad o'r Cynllun Arfaethedig, gan gynnwys manylion am; lleoliad y safle, pam mae angen y prosiect a beth sy'n cael ei gynnig;
- trosolwg o'r broses Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol, ei hamcanion a chwmpas yr asesiad;
- crynodeb o'r effeithiau adeiladu, gweithredol a gweddilliol a nodwyd trwy'r broses Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol ac a adroddwyd o dan benawdau pynciau sy'n ymdrin â gwahanol agweddau ar yr amgylchedd; a
- crynodeb o'r Cynllun Arfaethedig, fel y'i nodwyd yn yr Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol.

Mae modd cael copi digidol o'r Crynodeb Annhechnegol yma trwy Wefan RedStart Wales. Fel y nodir yng Nghyfrol 1 yr Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol yma, mae modd gweld y Crynodeb Annhechnegol trwy'r dulliau isod. Mae modd cael copïau digidol a chaled o'r Datganiad Amgylcheddol ar gais gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf trwy'r dulliau canlynol:

Gwefan: https://www.rctcbc.gov.uk/EN/GetInvolved/TylorstownLandslip/Tylorstownlandslipremediationprocess.aspx

E-bost: consultation@rctcbc.gov.uk

Ffôn: 01443 425014

Post: Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS, Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori, Cysylltiadau Cyhoeddus a Strategaeth, Y Pafiliynau, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX

Mae modd gofyn am gopi papur (caled) trwy'r dulliau uchod am ddim. Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Fydd dim copïau caled ar gael i'w gweld yn swyddfeydd y Cyngor oherwydd cyfyngiadau Covid-19.



Cynllun y Lleoliad:
Tirlithriad Tylorstown - Cam 4

ALLWEDD:

Lleoliad y Safle

Tirlithriad Tylorstown Cam 4

Pam mae angen y cynllun?

Ddydd Sul 16 Chwefror 2020, achosodd Storm Dennis i domen uchaf Llanwynno fethu uwchben pentref Tylorstown. Llithrodd tua 60,000m3 o ddeunydd i lawr y cwm, gan lenwi gwaelod y cwm a dargyfeirio cwrs Afon Rhondda Fach. Mae gwaith brys (y cyfeirir ato fel Camau 1, 2 a 3 o gynllun Tirlithriad Tylorstown) wedi cael ei gyflawni i gael gwared ar y deunydd sydd wedi llithro o'r afon a gwaelod y cwm.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf bellach yn argymell gwaith sefydlogi ac adfer hanfodol i sicrhau bod y deunydd o'r pwll glo o fewn Tomen Uchaf Llanwynno yn cael ei wneud yn ddiogel, gan atal tirlithriadau yn y dyfodol fel yr un a ddigwyddodd ym mis Chwefror 2020 ac i ddangos bod modd ailddefnyddio'r deunydd sydd wedi'i symud ac sydd ar y safle mewn ffordd fuddiol. I gyflawni hyn, bydd y mwyafrif o ddeunydd y pwll glo yn Nhomen Uchaf Llanwynno yn cael ei gloddio a'i gludo ar hyd ffordd gludo i leoliad newydd, sy'n cael ei gyfeirio ato fel y 'Safle Derbynnydd', wrth ymyl Old Smokey.

Sut mae cynaliadwyedd wedi'i integreiddio i ddyluniad y Cynllun?

Trwy gadw deunydd ar y safle, mae'r Cynllun yn osgoi defnyddio nifer fawr o loriau nwyddau trymion i gludo'r deunydd i domen gyfagos yn ogystal â goblygiadau cost carbon ac ansawdd aer cysylltiedig symud y deunydd oddi ar y safle.

Bydd y gwaith arfaethedig o ailsefydlu cynefinoedd ecolegol 'Y Domen Wastraff' a 'Ffridd' ar y Safle Derbynnydd a safle'r domen bresennol yn cael ei reoli a'i fonitro'n ofalus i sicrhau cymaint o lwyddiant â phosibl i gynefinoedd eiconig y Cymoedd a sicrhau bod budd ecolegol a chynaliadwy ar ôl defnyddio'r ddau safle.

Sut bydd y cynllun yma'n helpu i lywio sefydlogi tomenni pyllau glo ar draws Cymru?

Yn ogystal â datrys y risg uniongyrchol a berir i Dylorstown a Chwm Rhondda Fach gan dirlithriadau yn y dyfodol, y bwriad yw i'r cynllun yma weithredu fel prosiect peilot ar gyfer sefydlogi cynaliadwy ac ecolegol gadarn ac i ailddefnyddio'r gwastraff pwll glo.

Bydd rheoli a monitro ailsefydlu llystyfiant yn ofalus ar y Safle Derbynnydd a safle'r domen sy'n weddill yn hybu'r ddealltwriaeth ymarferol o'r heriau a'r mesurau arfer gorau sy'n gysylltiedig ag ail-sefydlu llystyfiant ar ddeunydd pwll glo sydd wedi'i sefydlogi ac yn darparu astudiaeth achos amserol o sut i reoli a hyrwyddo cynefinoedd y Cymoedd yn well yn y dyfodol, er budd ehangach sefyllfaoedd tebyg ar draws y wlad.

Hanes y Diwydiant Glo yn yr Ardal

Mae gan Tylorstown a'r ardal gyfagos 100 mlynedd o hanes diwydiant glo. Cafodd y pyllau glo cyntaf eu suddo yn ardal Tylorstown rhwng 1873 a 1876 gan Gwmni Glofa Tylor, ar ôl i Alfred Tylor brynu hawliau mwynau fferm Pendyrys ym 1872.

Roedd y pyllau glo yma'n rhan o Lofa Glynrhedynog, a oedd yn gyfres o naw pwll glo o amgylch Glynrhedynog. Y cyntaf oedd Rhif 1 Glynrhedynog, a gafodd ei datblygu ym Mlaenllechau yn 1857. Chafodd yr un olaf, Rhif 9, ei datblygu yn 1907 Erbyn y 1930au, roedd pob un ond tair o'r pyllau glo yn dal i fod ar waith nes i'r holl safleoedd gael eu cau gan y Bwrdd Glo Cenedlaethol yn 1959.

Er bod y gwaith cloddio glo wedi dod i ben, mae gweddillion y diwydiant yn parhau i fod ar wasgar ar draws ardal Glynrhedynog a Chwm Afon Rhondda Fach, fel Tomen Llanwynno, Old Smokey yn ogystal â thramffyrdd ac adeiladau segur.

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn?

Digwyddiad allweddol / carreg filltir	Dyddiad Allweddol
Ymchwilio i ddatrysiadau sefydlogrwydd tymor hir ar gyfer Tomen Llanwynno	Haf 2020
Datrysiad a ffefrir a nodwyd ar gyfer Tomen Llanwynno	Haf 2020
Ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru, RhCT a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch cynnwys y Datganiad Amgylcheddol	Tachwedd 2020 i Gwanwyn 2021
Cyflwyno dogfennau Cais Cynllunio ar gyfer Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio	Gaeaf 2021

Disgrifiadau o'r Cynllun

Beth mae'r Cynllun Arfaethedig yn ei olygu?

Llanwynno 1842

Bydd cryn dipyn o'r deunydd yn Nhomen Llanwynno yn cael ei symud yn rhan o'r Cynllun Arfaethedig i wella sefydlogrwydd a diogelwch yr ardal. I gyflawni hyn, bydd deunydd a gafodd ei adael uwchben graddiant naturiol ochr y cwm yn cael ei symud, a bydd peth o'r deunydd yma sy'n cael ei symud yn cael ei ddefnyddio i fewnlenwi'r graith slip a gafodd ei greu yn ystod y tirlithriad yn 2020. Ar y cyfan, bydd ochr y cwm yn cael ei wneud yn wastad, gan wella ei sefydlogrwydd, ei ddiogelwch a'i amwynder gweledol. Bydd nodweddion draenio hefyd yn cael eu hychwanegu at y domen, er mwyn sicrhau bod dŵr wyneb a dŵr daear yn cael eu rheoli'n briodol. Yna bydd y safle yma'n cael ei ffurfioli gyda rheolaeth a monitro ôl-ofal priodol i hyrwyddo ailsefydlu naturiol cynefinoedd 'Y Domen Wastraff' a 'Ffridd'. Bydd y llwybr troed sy'n rhedeg o dan domen uchaf Llanwynno hefyd yn cael ei adfer, er mwyn adfer mynediad uniongyrchol rhwng yr afon ac Old Smokey.

Safle Derbynnydd

Cafodd y Safle Derbynnydd ei ddylunio i ffitio i'r dirwedd anwastad o'i chwmpas. Mae'n siâp hirsgwar afreolaidd, gan gyrraedd cyfanswm uchder o ychydig dros 7 metr ar ei bwynt uchaf, ac mae wedi'i leoli y tu ôl i'r Old Smokey. Bydd nodweddion draenio fel pantiau yn cael eu darparu i sicrhau bod dŵr wyneb yn cael ei ddraenio'n briodol. Bydd haen uchaf bresennol y pridd yn y lleoliad yma yn cael ei thynnu, ei storio a'i gwasgaru ar draws y Safle Derbynnydd er mwyn annog llystyfiant i dyfu ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben. Bydd haen uchaf bresennol y pridd yn y lleoliad yma yn cael ei thynnu, ei storio a'i gwasgaru ar draws y Safle Derbynnydd er mwyn annog llystyfiant i dyfu ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben. Ar ôl ei gwblhau, bydd y safle'n dod yn warchodfa natur a bydd sefydlu'r llystyfiant ar y gwastraff pwll glo yn y safle derbynnydd yn cael ei ffurfioli gyda rheolaeth a monitro ôl-ofal priodol i hyrwyddo a gwarchod dau gynefin eiconig yn y Cymoedd, 'Y Domen Wastraff' a 'Ffridd'.

Ffordd Gludo

Bydd y deunydd a gloddiwyd yn cael ei gludo o domen uchaf Llanwynno i'r Safle Derbynnydd ar hyd hen dramffordd, wedi'i ffurfioli fel ffordd gludo.



Cyfyngiadau Amgylcheddol Allweddol

Beth yw'r nodweddion allweddol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y Cynllun Arfaethedig?

Dyma'r prif gyfyngiadau amgylcheddol yr ardal a gafodd eu hystyried yn ystod yr asesiad:

- mwyngloddio hanesyddol a hen domenni sy'n bodoli yn yr ardal;
- nodweddion ecolegol gan gynnwys pedwar Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) yn yr ardal, gyda SINC Old Smokey ar y safle a nifer o gynefinoedd o bwysigrwydd sirol ac sydd â gwerth ecolegol ar y safle. Hefyd, mae rhywogaethau gwarchodedig yn bresennol ar y safle;
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan gynnwys llwybr troed TYL 9/1 sy'n rhedeg yn uniongyrchol i'r dwyrain o'r Safle Derbynnydd ac yn torri trwy'r Ffin y Llinell Goch;
- Afon Rhondda Fach yn y cwm islaw'r safle; a
- tref gyfagos Tylorstown yn y Cwm islaw a'r ganolfan hamdden leol sydd wedi'i lleoli'n union o dan Safle Tomen Llanwynno.

Yr Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol

Beth yw Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol?

Mae'r Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol yn broses dechnegol sy'n cael ei gynnal yn unol â deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau'r llywodraeth.

Mae'r Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol yn astudiaeth o'r effeithiau posibl y bydd y Cynllun Arfaethedig yn eu cael ar yr amgylchedd. Ei bwrpas yw nodi'r effeithiau posibl yng nghamau adeiladu a gweithredu'r Cynllun Arfaethedig, a darparu mesurau lliniaru i leihau effaith yr effeithiau hynny ar yr amgylchedd.

Dyma brif amcanion y broses Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol:

- sicrhau bod yr effeithiau sylweddol tebygol yn cael eu trafod a'u cofnodi fel bod modd llywio penderfyniadau cynllunio a dylunio yn llawn;
- sicrhau bod pwysigrwydd cymharol yr effeithiau tebygol a'u goblygiadau yn cael eu gwerthuso'n iawn;
- cynorthwyo i nodi mesurau a allai leihau maint yr effeithiau a allai fod yn negyddol a'r cwmpas ar gyfer mesurau lliniaru o'r fath; a
- darparu cyfleoedd i randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd a chyrff amgylcheddol statudol, wneud sylwadau ar gynigion.

Mae'r broses Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol yn ailadroddol ochr yn ochr â dyluniad y Cynllun Arfaethedig. Wrth i effeithiau amgylcheddol y dyluniad gael eu cydnabod, mae modd addasu'r dyluniad i liniaru'r effeithiau yma.

Mae canfyddiadau technegol yr Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol yn cael eu cyflwyno ar ffurf Datganiad Amgylcheddol, sy'n cynnwys pedair cyfrol:

- **Cyfrol 1 Datganiad Amgylcheddol:** yn cynnwys y cyflwyniad, asesiadau manwl ar gyfer penodau pynciau unigol a chrynodeb o'r canfyddiadau allweddol.
- **Cyfrol 2 Cynlluniau:** yn cynnwys cyfres o gynlluniau a ffigurau i gefnogi'r asesiadau amgylcheddol.
- **Cyfrol 3: Atodiadau:** yn cynnwys yr holl adroddiadau asesu technegol ar gyfer y pynciau.
- **Cyfrol 4 Crynodeb Annhechnegol:** gan fod y Datganiad Amgylcheddol yn ddogfen dechnegol hir, mae'r Crynodeb Annhechnegol (y ddogfen yma) wedi'i llunio i ddisgrifio canfyddiadau'r broses Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol mewn modd sy'n hygyrch ac yn hawdd i'r cyhoedd ei ddeall.

Pa bynciau sy'n cael sylw yn yr Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol?

Mae canfyddiadau'r Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol wedi'u crynhoi yn y ddogfen yma o dan benodau pynciau ar wahân, fel y'u cwmpaswyd yn yr asesiad. Dyma'r pynciau:

- Ansawdd Aer
- Treftadaeth Ddiwylliannol
- Tirwedd ac Effeithiau Gweledol
- Bioamrywiaeth a Gwarchod Natur
- Daeareg, Priddoedd a Gwastraff
- Sŵn
- Yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl Llifogydd
- Damweiniau Mawr a Thrychinebau
- Cerddwyr, Beicwyr a Marchogion
- Effeithiau Cronnol

Sut mae'r effeithiau wedi'u hasesu?

Lle mae effeithiau posibl a'u heffeithiau wedi'u nodi, mae'r Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol yn asesu arwyddocâd yr effeithiau yma ar yr amgylchedd. Yn nodweddiadol caiff arwyddocâd effaith ei ddyrannu i un o bum categori (mawr iawn, mawr, cymedrol, bach neu ddibwys).

Er bod modd i'r broses o ddyrannu arwyddocâd i un o'r categorïau yma amrywio rhwng pynciau, trwy roi'r holl faterion a nodwyd ar yr un raddfa, mae modd llywio'r broses benderfynu yn briodol trwy ganiatáu cymharu ar draws pob pwnc.

Yn gyffredinol, po fwyaf yw gwerth (neu sensitifrwydd) nodwedd neu dderbynnydd amgylcheddol, a pho fwyaf yw maint (neu hyd a lled) yr effaith, yna'r mwyaf arwyddocaol fydd yr effaith ar yr amgylchedd. Gall effeithiau fod yn niweidiol (negyddol) neu'n fuddiol (cadarnhaol) eu natur a gallan nhw fod yn rhai dros dro neu'n rhai parhaol.

Lle mae effeithiau amgylcheddol niweidiol sylweddol wedi'u nodi, mae mesurau lliniaru priodol wedi'u dewis yn dilyn yr hierarchaeth yma: osgoi, lleihau, adfer ac iawndal.

Categori arwyddocâd	Disgrifyddion nodweddiadol o effaith
Mawr iawn	Mae effeithiau ar y lefel yma yn bwysig yn y broses benderfynu.
Mawr	Mae effeithiau ar y lefel yma yn debygol o fod yn bwysig yn y broses benderfynu.
Cymedrol	Mae modd i effeithiau ar y lefel yma gael eu hystyried yn ffactorau pwysig yn y broses
Bach	Dydy effeithiau ar y lefel yma ddim yn bwysig yn y broses benderfynu.
Dibwys	Dim effeithiau neu effeithiau sydd o dan lefelau canfyddiad, o fewn ffiniau amrywio arferol neu o fewn lwfans gwallau o ran rhagolygon.

Ansawdd Aer

Mae gan y Cynllun Arfaethedig y potensial i arwain at effeithiau ansawdd llwch ac aer yn ystod y cam adeiladu. Byddai'r effeithiau yma'n gysylltiedig â symud a chludo'r deunydd pwll glo o Domen Llanwynno i'r Safle Derbynnydd. Felly, yn yr asesiad yma, canolbwyntiwyd ar effeithiau posibl iechyd dynol o ansawdd aer gwael, yn enwedig o lwch.

Effeithiau Amgylcheddol

Cafodd chwe derbynnydd amgylcheddol sensitif (h.y. eiddo preswyl) eu nodi ac mae'r asesiad ansawdd aer yn canolbwyntio ar grynodiadau o'r llygrydd aer Nitrogen Deuocsid (NO2) a Deunydd Gronynnol mae modd ei anadlu (PM10).

Cafodd y crynodiadau a ragwelir o'r llygryddion aer yma eu cymharu yn erbyn Amcanion Cenedlaethol Ansawdd Aer i bennu i ba raddau y mae'r effeithiau a nodwyd yn sylweddol.

Adeiladu

Bydd yr effeithiau mwyaf wrth adeiladu'r Cynllun Arfaethedig yn dod o waith cloddio a dyddodi'r deunydd pwll glo. Bydd maint y llwch sy'n cael ei gynhyrchu yn amrywio o ddydd i ddydd yn dibynnu ar lefel y gweithgaredd, y gweithrediadau sy'n cael eu cyflawni a'r tywydd.

Mae'n annhebygol y bydd effeithiau'r cerbydau adeiladu yn sylweddol oherwydd bydd y mwyafrif o symudiadau traffig yn digwydd ar hyd y dramffordd segur sydd dros 1 cilometr i ffwrdd o'r tai preswyl agosaf ac Ardal Rheoli Ansawdd Aer Tylorstown.

Felly, mae disgwyl i effeithiau adeiladu ar iechyd pobl o ansawdd aer fod yn Ddibwys.

Cam Gweithredol

Does dim disgwyl y bydd y Cynllun Arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau ar ansawdd aer yn ystod y cam gweithredol.

Lliniaru'r Risg

Adeiladu

Trwy gydol y gwaith cloddio a dyddodi'r deunydd pwll glo, bydd mesurau lliniaru yn seiliedig ar ddogfennau canllaw'r Sefydliad Rheoli Ansawdd Aer (IAQM) ar waith er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd aer. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dampio deunydd e.e. pentyrrau;
- gosod terfynau cyflymder priodol ar y safle;
- plannu planhigion mewn arwynebau agored; a
- lleihau gwaith trin a lleihau uchder gollwng.

Cam Gweithredol

Fydd y Cynllun Arfaethedig ddim yn arwain at effeithiau tymor hir ar ansawdd aer. O'r herwydd, does dim angen mesurau lliniaru ar gyfer cam gweithredol y Cynllun Arfaethedig ar gyfer ansawdd aer.

Sŵn

Mae'r asesiad o sŵn yn canolbwyntio ar effeithiau sain (sŵn) diangen o beiriannau a gweithgareddau adeiladu, megis gwaith cloddio a chludo deunydd, yn ystod cam adeiladu'r Cynllun Arfaethedig

Effeithiau Amgylcheddol

Er mwyn asesu effeithiau'r Cynllun Arfaethedig, dewiswyd deg derbynnydd sy'n sensitif i sŵn o fewn 1 cilomedr i'r Cynllun Arfaethedig.

Adeiladu

Mae sŵn yn debygol o fod yn amlwg yn un o'r derbynyddion sy'n sensitif i sŵn (Cefn Llechau Uchaf), a rhagwelir y bydd lefel y sŵn yn y naw derbynnydd arall yn is na'r lefelau sŵn cefndir presennol.

Efallai y bydd lefelau sŵn ym Mlaenllechau ac yn Tylorstown yn amlwg ar adegau pan fydd gwaith yn cael ei gyflawni yn Nhomen Llanwynno ac ar hyd y llwybr cludo, ond nid ar y Safle Derbynnydd.

Fydd lefel y sŵn ar gyfer y gwaith adeiladu yn ystod y dydd a gweithgareddau symud y ddaear ddim yn mynd y tu hwnt i'r terfyn mewn unrhyw dderbynnydd preswyl, ac mae disgwyl iddo ond fynd y tu hwnt i'r terfyn sŵn yn achlysurol yng Nghanolfan Hamdden Rhondda Fach. Fodd bynnag, gallai effeithiau andwyol ddigwydd os bydd gwaith yn cael ei gynnal yn ystod y nos.

Cam Gweithredol

Does dim disgwyl y bydd y Cynllun Arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau ar lefelau sŵn yn ystod y cam gweithredol.

Lliniaru'r Risg

Adeiladu

Dim ond yn ystod oriau'r dydd yn ystod yr wythnos a boreau Sadwrn y dylid cynnal gwaith adeiladu.

Bydd nifer a mathau'r peiriannau adeiladu sy'n cael eu defnyddio ar y safle yn cael ei gadw i'r lleiafswm, a rhagwelir y bydd oddeutu tri chloddiwr a phedwar cerbyd nwyddau trwm (HGVs) yn cael eu defnyddio, yn unol â'r rhagdybiaethau a nodwyd yn yr asesiad.

Cam Gweithredo

Does dim angen mesurau lliniaru yn ystod y cam gweithredol gan nad oes disgwyl unrhyw effeithiau.

Treftadaeth Ddiwylliannol

Mae'r bennod ar dreftadaeth ddiwylliannol yn asesu effaith y Cynllun Arfaethedig ar archeoleg, adeiladau hanesyddol, a'r dirwedd hanesyddol. Roedd ardal yr astudiaeth yn cynnwys byffer o 250 metr o amgylch y safle ar gyfer asesu effeithiau'r Cynllun Arfaethedig ar weddillion archeolegol ac asedau treftadaeth heb eu dynodi. Cafodd ardal astudio ehangach yn cynnwys byffer o 1 cilomedr ei ddefnyddio ar gyfer asedau treftadaeth dynodedig statudol.

Effeithiau Amgylcheddol

Cafodd un ar ddeg o asedau treftadaeth eu nodi ar y safle a nodwyd naw arall o fewn 250 metr i'r Cynllun Arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys saith Ardal Cymeriad Tirwedd Hanesyddol.

Adeiladu

Nodwyd bod wyth o asedau treftadaeth yn cael eu heffeithio'n gorfforol yn uniongyrchol gan weithgareddau adeiladu'r Cynllun Arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y dramffordd;
- Safle Grŵp Tomen Newydd Tylor;
- Tomen Uchaf Llanwynno; a
- olion y tŷ injan weindio.

Cam Gweithredol

Nodwyd bod pum ased treftadaeth yn destun effeithiau gweledol anuniongyrchol, gan gynnwys y Neuadd Les (Adeilad Rhestredig Gradd II wedi'i leoli yn Tylorstown), o ganlyniad i bresenoldeb y Safle Derbynnydd newydd, y gwaith o dynnu rhan sylweddol o Domen Uchaf Llanwynno, a'r gwaith o ehangu'r dramffordd.

Lliniaru'r Risg

Adeiladu

Byddai cofnodi'r asedau treftadaeth naill ai cyn neu yn ystod y gwaith adeiladu yn helpu i warchod gwerth archeolegol a threftadaeth yr ardal. Caiff hyn ei gyflawni trwy:

- briff gwylio archeolegol o gamau olaf y broses o dynnu Tomen Uchaf Llanwynno;
- arolygon topograffig a ffosydd ymchwilio archeolegol ar hyd y dramffordd; a
- tynnu, mapio a chofnodi'r Safle Derbynnydd cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

Cam Gweithredol

Tirlunio'r Safle Derbynnydd mewn modd sensitif ac ail-wynebu'r dramffordd i leihau unrhyw effaith weledol anuniongyrchol ar asedau treftadaeth ac Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Hanesyddol o'i hamgylch.

Olion y Tŷ Injan Weindio (TT07) ary Safle



Tirwedd ac Effeithiau Gweledol

Mae'r dirwedd yn adnodd naturiol pwysig. Mae yna werthfawrogiad helaeth am ei chymeriad, ac mae'i hymddangosiad yn cyfrannu at yr hunaniaeth ranbarthol a'i ymdeimlad o le.

Gall unrhyw effeithiau'r Cynllun Arfaethedig ar nodweddion mewn tirwedd (tirffurfiau, llystyfiant neu dopograffeg) effeithio ar gymeriad cyffredinol y dirwedd honno.

Mae'r asesiad o effaith weledol yn ystyried sut y bydd golygfeydd o'r dirwedd o leoliadau sensitif, megis eiddo preswyl a lleoliadau awyr agored gyda mynediad cyhoeddus, yn cael eu newid o ganlyniad i'r Cynllun Arfaethedig.

Effeithiau Amgylcheddol

Cafodd yr effeithiau ar saith safbwynt gwahanol (o ardaloedd preswyl, hawliau tramwy cyhoeddus ac ardaloedd hamdden) a phedair ardal o gymeriad tirwedd wahanol, eu hystyried ar gyfer yr asesiad yma. Mae crynodeb ohonyn nhw isod.

Adeiladu

- Bydd gweithgareddau adeiladu yn cael effaith negyddol ar y golygfeydd trwy:
- Gwaith cloddio a gwrthgloddiau, gan gynnwys pentyrrau;
- Lleoli adeiladau dros dro ac adeiladu'r safle gwaith adeiladu; a
- Colli llystyfiant, gan gynnwys coed.

Bydd yr effeithiau yma hefyd yn cael effaith negyddol ar ardal o gymeriad tirwedd Ochr y Bryn a Llethrau Sgarp Mosaig Dwyrain y Cwm, sef yr ardal o gymeriad tirwedd y mae'r Cynllun Arfaethedig wedi'i lleoli ynddo.

Cam Gweithredol

Cyflwyno llethrau peirianyddol yn rhan o'r Safle Derbynnydd yw prif effaith negyddol y Cynllun Arfaethedig ar dirwedd a golygfeydd yr ardal yn ystod y cam gweithredol.

Lliniaru'r Risg

Adeiladu

Bydd y mesurau lliniaru ar gyfer y cam adeiladu cael eu disgrifio'n fanwl yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu a bydd yn cynnwys:

- cynllun gosod y safle i sicrhau bod nodweddion sy'n ymwthiol yn weledol, fel pentyrrau a pheiriannau adeiladu, wedi'u lleoli i ffwrdd o dderbynyddion gweledol sensitif;
- cynllun o'r mesurau rheoli traffig ar y safle;
- dim ond tynnu llystyfiant pan fo hynny'n hanfodol;
- sicrhau bod pentyrrau dros dro yn cael eu cadw o dan 2 metr o uchder; a
- defnyddio goleuadau cyfeiriadol ar y safle.

Cam Gweithredol

Bydd y llethrau'n cael eu hadu â chymysgedd adferiad sy'n hawdd gofalu amdanyn nhw. Byddan nhw'n cael eu gadael i wyrddio a bydd haen uchaf y pridd yn y Safle Derbynnydd yn cael ei dynnu a'i ailddefnyddio fel gwrtaith uchaf i hybu'r llystyfiant i aildyfu'n naturiol. Bydd hyn yn lleihau effeithiau tirwedd a gweledol y Cynllun Arfaethedig wrth i lystyfiant aildyfu.

At hynny, cafodd yr effeithiau tirwedd a gweledol eu hystyried trwy gydol dyluniad y tirffurf newydd ar y Safle Derbynnydd, gan sicrhau bod ei leoliad, ei faint a'i siâp yn achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i'r golygfeydd a'r dirwedd leol.



Bioamrywiaeth a Gwarchod Natur

Mae'r asesiad ar gyfer bioamrywiaeth yn ystyried effeithiau ar safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau sy'n cael eu cydnabod am eu gwerth ecolegol. Mae'n ystyried safleoedd 'dynodedig', sy'n cael eu gwarchod o dan y gyfraith neu reolaethau cynllunio'r awdurdod lleol, a safleoedd 'heb eu dynodi' na fydd efallai'n cael eu gwarchod ond sydd â rhywfaint o werth o ran bywyd gwyllt serch hynny.

Mae'r rhain yn cynnwys Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) Llethrau Old Smokey, SINC Coedwig San Gwynno, SINC Afon Taf ac Afon Rhondda, a SINC Coetir Blaenllechau. Mae amrywiaeth o gynefinoedd sydd wedi'u rhestru'n gynefinoedd â blaenoriaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn bresennol ar y safle. Mae nifer o rywogaethau gwarchodedig yn bresennol yn ardal ehangach y safle, gan gynnwys ystlumod, ymlusgiaid, ac adar bridio a gaeafu. Mae rhywogaethau eraill, fel madfallod cribog, wedi'u canfod yn agos i'r safle ond nid o fewn y safle ei hun.

Effeithiau Amgylcheddol

Adeiladu

Heb fesurau lliniaru, mae potensial gan weithgareddau adeiladu i achosi effeithiau ar fioamrywiaeth trwy:

- diraddio / colli cynefinoedd o'r canlynol:
  - tynnu a storio haen uchaf y pridd ar gyfer y Safle Derbynnydd;
  - newidiadau mewn dŵr daear o amgylch y Safle Derbynnydd; ac
  - o lygredd cemegol a llwch posib ar hyd ymyl y ffordd gludo; a
- marwolaethau uniongyrchol rhywogaethau fel adar ac ystlumod yn ystod y gwaith clirio llystyfiant cyn-adeiladu.

Cam Gweithredol

Does dim effeithiau negyddol ar gyfer bioamrywiaeth yr ardal i'w rhagweld yng ngham gweithredol y Cynllun Arfaethedig.

Lliniaru'r Risg

Adeiladu

Mae dyluniad y Safle Derbynnydd yn sicrhau bod cynefinoedd o werth bioamrywiaeth uwch naill ai'n cael eu hosgoi, neu bod yr ardal sy'n cael ei golli yn cael ei leihau.

Bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu yn cael ei baratoi a'i roi ar waith gan roi manylion ar fesurau i leihau effeithiau'r gwaith adeiladu ar lwch/ansawdd aer, sŵn a mesurau rheoli llygredd i ddŵr a phriddoedd.

Bydd mesurau arfer gorau yn cael eu dilyn mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd yn ystod y gwaith adeiladu.

Bydd gwaith clirio safle yn cael ei gyflawni ar adegau priodol o'r flwyddyn; neu o dan oruchwyliaeth ecolegol os yw'n briodol. Bydd y gwaith o dynnu llystyfiant hefyd yn cael ei gyflawni yn unol â datganiadau dull penodol, gan sicrhau bod dull rhagofalus yn cael ei ddilyn i osgoi niwed i rywogaethau gwarchodedig.

Cam Gweithredol

Fel y trafodwyd uchod, mae dyluniad y Cynllun wedi ceisio lleihau effeithiau ecolegol o'r cychwyn cyntaf trwy annog adfywiad naturiol dau gynefin eiconig yn y Cymoedd, 'Y Domen Wastraff' a 'Ffridd'. Bydd cynllun ôl-ofal pum mlynedd cynhwysfawr yn cael ei ddilyn er mwyn sicrhau bod llystyfiant wedi'i drawsleoli a phriddoedd uchaf wedi'u hailddefnyddio yn cael eu hailsefydlu'n llwyddiannus.

Gwelliannau

Cafodd nifer o welliannau ychwanegol eu cynnig a byddan nhw'n cael eu hintegreiddio i'r dyluniad manwl, gyda chymorth gan ecolegydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Defnyddio toriadau o goed wedi'u cwympo i greu o leiaf un hibernaculum i ymlusgiaid 'o dan y ddaear';
- Gosod o leiaf un blwch nythu ar gyfer cudyll coch;
- Gosod blychau ar gyfer drudwy; a
- Gosod o leiaf ddeg blwch caeedig gyda blaen agored ar gyfer ystod o rywogaethau adar bridio cyffredin.



Daeareg, Asedau Deunyddiol a Gwastraff

Mae'r asesiad yma'n ystyried effeithiau'r Cynllun Arfaethedig ar ddaeareg a phriddoedd yr ardal, gyda rhywfaint o ystyriaeth o'r defnydd o ddeunyddiau a sut mae gwastraff yn cael ei gynhyrchu a'i reoli. Felly, mae ardal yr astudiaeth ar gyfer yr asesiad yma'n ymestyn i adnoddau'r deunydd adeiladu a'r cyfleusterau rheoli gwastraff yng nghyffiniau'r Cynllun Arfaethedig.

Effeithiau Amgylcheddol

Adeiladu

Fydd y Cynllun Arfaethedig ddim yn effeithio ar unrhyw safleoedd o bwysigrwydd daearegol. Wrth ddefnyddio mesurau lliniaru, fydd gweithgareddau adeiladu ddim yn cael effaith sylweddol ar adnoddau mwynau yn yr ardal na chynhwysedd gwastraff y rhanbarth, gan y bydd mwyafrif deunydd y pwll glo yn cael ei ailddefnyddio ar y safle.

Cam Gweithredol

Mae cronfeydd agregau a glo bas manyleb uchel o dan y safle. Mae'n annhebygol y bydd y rhain yn cael eu cloddio yn y dyfodol, oherwydd lleoliad y safle wrth ymyl Old Smokey lle byddai unrhyw waith cloddio yn debygol o achosi ansefydlogrwydd. Felly, fydd presenoldeb y Cynllun Arfaethedig ddim yn cael unrhyw effaith ar echdynnu cronfeydd mwynau yn yr ardal.

Fydd y Cynllun Arfaethedig ddim yn defnyddio unrhyw ddeunyddiau nac yn cynhyrchu unrhyw wastraff yn ystod y cam gweithredol.

Lliniaru'r Risg

Adeiladu

Bydd y mesurau canlynol yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y gwaith adeiladu:

- Bydd unrhyw wythiennau glo sy'n brigo a allai fod wedi'u dadorchuddio yn ystod tirlithriad 2020 yn cael eu hailadeiladu i gael gwared ar y potensial y bydd y glo yn cael ei ocsideiddio ac yna'i ymlosgi;
- Bydd gwaith adeiladu yn cael ei fonitro i nodi unrhyw bocedi sy'n cynnwys llawer o lo;
- Mae Cynllun Rheoli Deunyddiau (MMP) wedi'i ddrafftio yn unol â'r protocol CL:AIRE a bydd yn cael ei weithredu i sicrhau bod deunyddiau'n cael eu rheoli'n ofalus i hyrwyddo ailddefnyddio a lleihau gwastraff. Bydd rheoli a storio deunyddiau dros dro yn ystod y gwaith adeiladu hefyd yn cael ei nodi yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu manwl.

Cam Gweithredol

Oherwydd yr effeithiau isafol sy'n cael eu rhagweld o'r Cynllun Arfaethedig yn ystod y cam gweithredol, does dim mesurau lliniaru yn cael eu hargymell ar gyfer daeareg, asedau deunyddiol a gwastraff.



© Hawlfraint y Goron Arolwg Ordnans

Yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl Llifogydd

Mae'r bennod yma'n asesu unrhyw newidiadau i ansawdd afonydd a geomorffoleg, yn ogystal ag ansawdd dŵr daear, a allai ddigwydd o ganlyniad i'r gwaith arfaethedig. Mae'r effeithiau posibl ar ddraenio dŵr wyneb a llifogydd hefyd yn cael eu hystyried. Mae'r Cynllun Arfaethedig wedi'i leoli yng nghwm Afon Rhondda Fach ac mae'n rhyngweithio'n agos â rhwydwaith o ddraeniau sy'n bodoli eisoes sy'n bwydo i mewn i Afon Rhondda Fach. Mae lleoliad y Cynllun hefyd uwchben pocedi o ddŵr daear.

Effeithiau Amgylcheddol

Adeiladu

Yn ystod y gwaith adeiladu, mae gan y Cynllun Arfaethedig y potensial i gael yr effeithiau andwyol canlynol ar yr amgylchedd dŵr lleol:

- Gallai priddoedd, llwch a llygryddion sy'n cael eu rhyddhau yn ystod y gwaith adeiladu fynd i mewn i gyrsiau dŵr a dŵr daear lleol a'u niweidio;
- Gallai metelau sy'n bresennol yn Nhomen Llanwynno ac yng nghyffiniau'r Safle Derbynnydd ymgasglu gan effeithio'n andwyol ar gyrsiau dŵr a dŵr daear;
- Bydd y gwaith arfaethedig yn achosi newidiadau ffisegol i'r rhwydwaith draenio presennol yn Nhomen Llanwynno;
- O ganlyniad, gallai fod newid i'r llif dŵr wyneb dros dro a chynydd yn y dŵr ffo a'r perygl llifogydd i staff adeiladu yn ogystal ag offer a gwaith ar y safle.

Cam Gweithredol

Mae disgwyl y bydd y Cynllun Arfaethedig yn cael effeithiau buddiol ac andwyol ar yr amgylchedd dŵr yn y stod y cam gweithredol.

Mae'r effeithiau andwyol yn cynnwys:

- Cynnydd posibl yn nifer y metelau a'r gwaddod sy'n mynd i mewn i Afon Rhondda Fach a dŵr daear, yn sgil metelau a gwaddod yn ymgasglu yn ystod y gwaith adeiladu;
- Potensial ar gyfer mwy o berygl llifogydd dŵr wyneb ar y Safle Derbynnydd; a
- Newid posib i symudedd ac argaeledd dŵr daear yn yr ardal.

Mae'r effeithiau buddiol yn cynnwys:

- Llai o debygolrwydd y bydd digwyddiadau mawr o ran llygredd dŵr neu newidiadau hydromorffolegol difrifol yn digwydd, o ganlyniad i dirlithriadau yn y dyfodol;
- Potensial i leihau faint o fetelau a gwaddod sy'n mynd i mewn i Afon Rhondda Fach a dŵr daear, trwy symud deunydd y pwll glo i'r Safle Derbynnydd, sydd ymhellach i ffwrdd o Afon Rhondda Fach na Thomen Llanwynno ac mewn ardal â dŵr daear dyfnach; a
- Gostyngiad yn y perygl llifogydd dŵr wyneb yn ardal Tomen Llanwynno ac i lawr yr afon.

Lliniaru'r Risg

Mae mesurau lliniaru wedi'u cynnig i osgoi a lleihau'r effeithiau andwyol a nodwyd uchod ar gyfer cam adeiladu a cham gweithredol y Cynllun.

Adeiladu

Bydd mesurau atal llygredd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu ac yn cael eu defnyddio ar draws y safle adeiladu i atal unrhyw ddigwyddiadau llygredd yn ystod y gwaith adeiladu, yn enwedig wrth gloddio a thrin deunydd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys mesurau i reoli draeniad a pherygl llifogydd dŵr wyneb yn ystod y gwaith adeiladu.

Bydd gwaith monitro dŵr daear yn cael ei gynnal yn barhaus yn ystod y gwaith adeiladu i ganfod unrhyw newidiadau sylweddol.

Cam Gweithredol

Mae dyluniad Tomen Llanwynno a'r Safle Derbynnydd yn cynnwys rhwydweithiau draenio dŵr wyneb a fydd yn sicrhau nad oes unrhyw berygl llifogydd dŵr wyneb yn yr ardal ac i lawr yr afon. Bydd y rhwydwaith yma'n cael ei blannu â llystyfiant planhigion lled-ddyfrol sy'n gallu amsugno metelau a lleihau'r swm sy'n cyrraedd Afon Rhondda Fach a'r dŵr daear.

Bydd haen uchaf y pridd yn cael ei ailosod a'i wasgaru ar draws y Safle Derbynnydd a Thomen Llanwynno, i annog llystyfiant i dyfu ac atal gwaddod a metelau rhag mynd i mewn i'r amgylchedd dŵr.

Bydd ffynhonnau monitro yn cael eu gosod i fonitro lefelau dŵr daear yn y Safle Derbynnydd a Thomen Llanwynno yn ystod cam adeiladu a cham gweithredol y Cynllun, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau sylweddol yn digwydd.



Cerddwyr, Beicwyr a Marchogion

Mae'r asesiad o effeithiau ar gerddwyr, beicwyr a marchogion yn ystyried sut mae'r Cynllun Arfaethedig yn newid mynediad i dir mynediad agored, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, llwybrau troed anffurfiol a llwybrau beicio cenedlaethol.

Effeithiau Amgylcheddol

Adeiladu

Bydd un llwybr troed Hawl Tramwy Cyhoeddus a rhywfaint o dir mynediad agored yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol a'u cau i'r cyhoedd yn ystod cam adeiladu'r Cynllun Arfaethedig. Fodd bynnag, mae llwybrau ac ardaloedd eraill ar gael i ddefnyddwyr yr amwynderau lleol eu defnyddio.

Bydd rhywfaint o newid tymor byr yn yr awyrgylch i'r llwybrau troed o amgylch y Cynllun Arfaethedig o ganlyniad i weithgareddau adeiladu a allai atal pobl rhag eu defnyddio trwy gydol y cyfnod adeiladu.

Bydd yr Hawl Tramwy Cyhoeddus hefyd yn gofyn am ddargyfeiriad parhaol o oddeutu 80 metr, er mwyn darparu'r elfennau draenio ar gyfer y Safle Derbynnydd. Bydd hyn yn disodli'r llwybr troed hyd at 26 metr tua'r gorllewin.

Cam Gweithredol

Mae disgwyl y bydd y Cynllun Arfaethedig yn gwella'r tir mynediad agored trwy gynnig tirlunio gwell, ac yn helpu i ddiffinio'r Hawl Tramwy Cyhoeddus sy'n rhedeg trwy'r safle gan ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gael mynediad iddo. Bydd diogelwch y llwybr beicio o dan y safle hefyd yn cael ei wella i ddefnyddwyr. Bydd ailosod y llwybr troed sy'n rhedeg o dan Domen Llanwynno yn gwella mynediad cyhoeddus i'r ardal a'r amwynder ac yn adfer cysylltedd rhwng cwm yr afon ac Old Smokey.

Lliniaru'r Risg

Adeiladu

Bydd cyswllt â swyddogion Hawliau Tramwy Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal i nodi dargyfeiriadau ac arwyddion dros dro priodol ar gyfer llwybrau troed a thir mynediad agored sydd wedi'u cau yn ystod cam adeiladu'r Cynllun Arfaethedig.

Bydd cyswllt â swyddogion Hawliau Tramwy Cyhoeddus lleol hefyd yn llywio aliniad terfynol y dargyfeiriad arfaethedig ar gyfer yr Hawl Tramwy Cyhoeddus, ac yn sicrhau bod y cydsyniadau priodol yn eu lle ar gyfer y dargyfeiriad parhaol.

Cam Gweithredol

Bydd y gwaith tirlunio sy'n cael ei gwblhau yn rhan o ddyluniad y Cynllun Arfaethedig yn sicrhau bod modd i ddefnyddwyr deithio'n ddiogel trwy'r ardal, a bod awyrgylch a lleoliad y llwybr troed Hawl Tramwy Cyhoeddus yn annog pobl i'w ddefnyddio'n fwy rheolaidd.



Damweiniau a Thrychinebau Mawr

Mae damweiniau a thrychinebau mawr yn cynnwys digwyddiadau naturiol neu o waith dyn sydd â thebygolrwydd isel o ddigwydd ond a fyddai'n arwain at ganlyniadau uchel, megis colli bywyd neu ddifrod sylweddol neu darfu ar seilwaith.

Mae'r asesiad sydd wedi'i gynnal yn y bennod yma'n wahanol i'r un ym mhenodau eraill yr asesiad amgylcheddol. Mae'n nodi peryglon amgylcheddol sy'n cynyddu risg neu'n lleihau diogelwch derbynyddion dynol ac amgylcheddol, cyn ystyried ffyrdd priodol o reoli a lleihau'r peryglon hynny.

Effeithiau Amgylcheddol

Adeiladu

Mae'r risg fwyaf ar gyfer damweiniau a thrychinebau mawr yn dod o ansefydlogrwydd posibl ar y ddaear a fyddai'n achosi tirlithriad neu ymsuddiant arall, a hynny yn sgil y gweithgareddau adeiladu neu dywydd eithafol, yn enwedig yn ystod cyfnodau o law trwm. Gallai hyn effeithio ar weithwyr y safle adeiladu, o bosibl defnyddwyr Canolfan Hamdden Rhondda Fach a defnyddwyr y llwybrau troed cyfagos a gallai fod angen ymateb brys.

Cam Gweithredol

Bydd y Cynllun Arfaethedig yn gwella sefydlogrwydd ochr y cwm trwy symud deunydd y pwll glo i leoliad mwy diogel ac felly'n lleihau'r risg y bydd damweiniau a thrychinebau mawr yn digwydd yn yr ardal. Ar ben hynny, mae rhwydwaith draenio gwell yn cael ei ddarparu yn Nhomen Llanwynno a fydd hefyd yn helpu i gynnal sefydlogrwydd ochr y cwm.

Lliniaru'r Risg

Adeiladu

Mae arolygon geodechnegol a gwaith monitro dŵr daear wedi cael eu cyflawni i fesur y risg i sefydlogrwydd y ddaear ar y safle, a bydd gwaith monitro dŵr daear parhaus yn sicrhau bod gweithgareddau adeiladu yn cael eu cynnal gyda'r ddealltwriaeth orau o'r amodau daear lleol a'i sefydlogrwydd.

Bydd mesurau arfer gorau ar waith ar y safle trwy gydol y cyfnod adeiladu er mwyn sicrhau diogelwch gweithwyr adeiladu a derbynyddion yn yr ardal gyfagos yn ystod y cam yma.

Cam Gweithredol

Bydd y potensial ar gyfer llifogydd dŵr daear ac ansefydlogrwydd cysylltiedig yn cael ei liniaru trwy gynnal gwaith monitro dŵr daear am chwe mis er mwyn arsylwi lefelau dŵr. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw newidiadau i lefelau dŵr yn cael eu codi'n gyflym, yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu.

Effeithiau Cronnol

Adeiladu

Yn ystod y cyfnod adeiladu, does dim disgwyl unrhyw effeithiau cronnol ar dderbynyddion lleol.

Cam Gweithredol

Yn ystod y cyfnod gweithredol, bydd y Cynllun Arfaethedig yn gyffredinol yn cael effaith fuddiol ar yr ardal o ran bioamrywiaeth a mynediad cyhoeddus, yn ogystal ag ar gyfer cofnodi / cadw nodweddion treftadaeth hysbys yn y tymor hir. Ond yn bwysicaf oll bydd y Cynllun Arfaethedig yn gwella diogelwch ar gyfer trigolion Tylorstown, defnyddwyr Canolfan Hamdden Rhondda Fach a'r tir mynediad agored / llwybrau troed cyhoeddus. Ar ben hynny, bydd y Cynllun yn hwyluso gweithredu dyheadau RhCT ar gyfer llwybr teithio llesol newydd ar hyd Cwm Rhondda Fach.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Yn dilyn y broses Ymgynghori Cyn Ymgeisio (PAC), bydd y Datganiad Amgylcheddol, yn ogystal â'r cais cynllunio, yn cael ei ddiweddaru cyn ei gyflwyno'n derfynol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu amlinellol wedi'i ddrafftio a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau bod yr holl faterion amgylcheddol a nodwyd yn ystod y broses Asesu Effaith Amgylcheddol yn cael eu rheoli'n briodol trwy gydol y camau dilynol o ddylunio ac adeiladu'r Cynllun.

Dyma'r llinell amser sydd i'w ddisgwyl rhwng nawr a chwblhau'r Cynllun:

Digwyddiad allweddol / carreg filltir	Dyddiad Allweddol
Diweddariad y Cais Cynllunio	**Gaeaf 2021/2022**
Cyflwyno'r cais cynllunio	**Gaeaf 2021/2022**
Penodi contractwr	**Gaeaf 2021/2022**
Dechrau'r gwaith adeiladu	**Gwanwyn 2022**
Cwblhau'r gwaith adeiladu	**Hydref 2022**
Parhau i ymgynghori â CNC, RhCT a rhanddeiliaid allweddol eraill trwy gydol gweddill y cynllun	